


YSGOL GWYDDORAU MEDDYGOL AC IECHYD

Dychwelyd i Ymarfer Nyrsio
a Modiwl Cynnal
Cymhwysedd Proffesiynol



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY



Cwrs Newydd Dychwelyd i Ymarfer Nyrsio

Mae'n bleser gan Ysgol y Gwyddorau Meddygol ac Iechyd, Prifysgol Bangor gyhoeddi lansiad ein rhaglen Dychwelyd i Ymarfer Nyrsio newydd a ddilysir gan yr NMC yn 2022. Mae ein cwrs wedi'i gynllunio i ddarparu llwybr hyblyg i gyn-nyrsys ddychwelyd i fyd deinamig ymarfer clinigol. Mae hefyd yn addas ar gyfer y rhai sydd wedi ymuno â'r gofrestr dros dro ac sy'n dymuno dychwelyd yn barhaol.

Mae ein rhaglen yn darparu profiad dysgu pwrpasol ar gyfer pob maes nyrsio sy'n canolbwyntio ar ddatblygu gwneud penderfyniadau, adnewyddu gwybodaeth, a chefnogi hyfedredd mewn sgiliau a gweithdrefnau clinigol.

Cyflwyniad

Mae hwn yn gwrs gradd 30 credyd, lefel 6. Gan weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), defnyddir cymysgedd o addysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb i ddiweddarau eich gwybodaeth nyrsio, wedi'i ategu gan egwyddorion gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Bydd gwybodaeth a sgiliau clinigol yn cael eu cyfnerthu yn ystod lleoliad rhan-amser o fewn BIPBC. Yma byddwch yn derbyn cefnogaeth ardderchog gan aseswyr ymarfer a goruchwylwyr, tra'n profi'r ystod o wasanaethau a gynigir gan y sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru.

Rhagolygon Gyrfa

Mae cwblhau'r cwrs hwn yn gwella rhagolygon cyflogaeth yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae gan y cwrs hanes ardderchog o gynorthwyo myfyrwyr llwyddiannus i ddychwelyd i gyflogaeth a hyfforddiant clinigol pellach.

**Mae bwrsari AaGIC o £3000 ar
gael i fyfyrwyr cymwys**



Strwythur y Cwrs

- Bloc theori rhan-amser cychwynnol o 10 diwrnod
- Lleoliad clinigol rhan-amser: 150-450 awr yn dibynnu ar yr hyd a aeth heibio a thystiolaeth o brofiad a dysgu blaenorol (RPEL).

Ariennir ffioedd cwrs gan AaGIC

- Mae bwrsari AaGIC o £3000 ar gael i fyfyrwyr cymwys.

Darpariaeth ddwyieithog

- Mae'r cwrs hwn ar gael yn ddwyieithog gyda chymorth tiwtorial trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Sut fyddai'n astudio?

Cyflwynir y rhaglen drwy gyfuniad o ddysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb gan gynnwys darlithoedd, tiwtorialau, gweithdai a gwaith grŵp. Mae'n hanfodol eich bod yn gallu defnyddio'r offer TG perthnasol a'r rhyngwrdd i fynychu'r ddamcaniaeth.

Beth fyddai'n ddysgu?

- Arddangos y gallu i gynnal asesiad cywir, tosturiol gan ddefnyddio sgiliau diagnostig a gwneud penderfyniadau priodol er mwyn cynllunio, gweithredu a gwerthuso gofal yn effeithiol.
- Gwerthuso'n feirniadol, cymhwyso gwybodaeth, a dangos y sgiliau i fod yn weithiwr proffesiynol atebol, gan weithio mewn partneriaeth i ddarparu gofal diogel a thosturiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Datblygu gallu gwneud penderfyniadau, datrys problemau, a dadansoddi beirniadol
- Diweddarau sgiliau rhifedd a llythrennedd digidol Myfyrio'n feirniadol ar eich ymarfer eich hun, gan wella hunanymwybyddiaeth i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a gwytnwch.

"Rydw i wir yn teimlo'n barod i fynd yn ôl allan eto i ymarfer yn dilyn y rhaglen hon Mae'r cwrs wedi rhoi llawer i mi ei ddatblygu, gydag offer newydd i asesu cleifion a digon i feddwl amdano. Rwyf wedi ei fwynhau'n onest ac yn awr mewn ymarfer clinigol fel nyrs staff amser llawn ar uned asesu meddygol aciwt brysur. Diolch am y gefnogaeth hyblyg a dysgu trwy gydol y cwrs."

Susanne Pook.

Prifysgol Bangor

Mae'r Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd yn rhan o Brifysgol Bangor sy'n arwain y byd, lle mae rhagoriaeth mewn addysgu ac ymchwil yn cyd-fynd â phhecyn cymorth unigol, yn amrywio o diwtor personol, tiwtor cyswllt, hwyluswyr addysg ymarfer, a gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr.

Manylion llawn yma
Gwneud cais yma
Côd Modiwl: NHS 3501



Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y cwrs hwn cysylltwch â:

Dr Lucy Melville-Richards
Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd
Fron Heulog, Bangor, Gwynedd, LL572EF.
01248 383193
l.melville-richards@bangor.ac.uk or
health.applications@bangor.ac.uk.